# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



## Un o'r Dyrfa

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Un o’r Dyrfa



**Gwybodaeth Gefndirol**

- Roedd llawer iawn o bobl wedi mynd i Jerwsalem ar gyfer Gŵyl y Pasg
- Roedd llawer o bobl wedi clywed am Iesu ac yn gwybod y byddai’n dod i Jerwsalem.



**Beth Ddigwyddodd**

- Wrth i Iesu farchogaeth i Jerwsalem ar gefn ebol asyn roedd pobl yn ei drin fel brenin drwy osod eu cotiau ar lawr o’i flaen a chwifio dail a changhennau wrth iddo basio.
- Roedd y dyrfa yn moli Duw ac yn gweiddi, “Hosanna!” sy’n golygu, “Hwre, dyma’r un sy’n gallu ein hachub!”
- Ar ôl i Iesu gael ei arestio, roedd Peilat, llywodraethwr y Rhufeiniaid, eisiau ei ryddhau. Fodd bynnag, cynhyrfodd y prif offeiriaid y dyrfa i ofyn am ei groeshoelio ac i ryddhau carcharor arall.Gwaeddodd y dorf yn uwch ac yn uwch nes i Peilat ildio yn y diwedd.



**Diffiniad**

- Pwysau cyfoedion: Pwysau cyfoedion ydy’r teimlad fod rhaid i mi ymddwyn mewn ffordd arbennig er mwyn cael fy nerbyn gan y grŵp.




**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Mae'n hawdd dilyn y dorf a gwneud neu ddweud beth mae pobl eraill yn ei wneud. Perswadiwyd rhai o’r dorf i weiddi’n uchel yn erbyn Iesu, ac ymunodd eraill i mewn. Ar adegau fel hyn mae’n rhaid dewis. Ond weithiau nid y dewis hawsaf yw'r dewis iawn.



**Ystyried**

- A yw’n haws cyd-fynd â’r hyn mae pawb arall yn ei ddweud a’i wneud, hyd yn oed os wyt yn gwybod ei fod yn anghywir, neu sefyll dros yr hyn wyt ti’n ei gredu ar dy ben dy hun?
- Wyt ti erioed wedi cael dy berswadio i ddweud neu wneud y peth anghywir?
- Beth neu pwy sy’n dy helpu i wneud y dewisiadau iawn?